

Public Document Pack

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Bridgend County Borough Council

Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont, CF31 4WB / Civic Offices, Angel Street, Bridgend, CF31 4WB



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg.
Rhowch wybod i ni os mai Cymraeg yw eich dewis iaith.

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh.



Annwyl Cyngorydd,

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2

Cynhelir Cyfarfod Pwyllgor Craffu Testun 2 o bell trwy Timau Microsoft ar **Dydd Iau, 15 Gorffennaf 2021 am 09:30**.

AGENDA

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb gan Aelodau.
2. **Datganiadau o fuddiant**
Derbyn datganiadau o ddiddordeb personol a rhagfarnol (os o gwbl) gan Aelodau / Swyddogion yn unol â darpariaethau'r Cod Ymddygiad Aelodau a fabwysiadwyd gan y Cyngor o 1 Medi 2008.
3. **Cymeradwyaeth Cofnodion** 3 - 12
I dderbyn am gymeradwyaeth y Cofnodion cyfarfod y 21 04 21
4. **Y Rhaglen Strategol ar gyfer Pobl ym Mhen-y-bont ar Ogwr - Gwella canlyniadau i'r Jonesiaid** 13 - 24

Gwahoddwyr:

Claire Marchant - Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Cynghorydd Nicole Burnett - Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth
Cynnar
Cynghorydd Dhanisha Patel - Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau Dyfodol
Jackie Davies - Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Laura Kinsey - Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Blant
Andrew Thomas - Rheolwr Grwp - Chwaraeon a Gweithgaredd Corfforol
Pete Tyson - Rheolwr Grwp - Comisiyny

5. **Diweddarriad Rhaglen Gwaith** 25 - 34

Ffôn/Tel: 01656 643643

Facs/Fax: 01656 668126

Ebost/Email: talktous@bridgend.gov.uk

Negeseuon SMS/ SMS Messaging: 07581 157014

Twitter@bridgendCBC

Gwefan/Website: www.bridgend.gov.uk

Cyfnewid testun: Rhowch 18001 o flaen unrhyw un o'n rhifau ffon ar gyfer y gwasanaeth trosglwyddo testun

Text relay: Put 18001 before any of our phone numbers for the text relay service

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg. Rhowch wybod i ni os yw eich dewis iaith yw'r Gymraeg

We welcome correspondence in Welsh. Please let us know if your language choice is Welsh

6. Materion Brys

I ystyried unrhyw eitemau o fusnes y, oherwydd amgylchiadau arbennig y cadeirydd o'r farn y dylid eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol â Rhan 4 (pharagraff 4) o'r Rheolau Trefn y Cyngor yn y Cyfansoddiad.

Nodyn: Sylwch: Yn sgil yr angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach, bydd hwn yn gyfarfod rhithwir a bydd Aelodau a Swyddogion yn mynchy o bell. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu ar wefan y Cyngor cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl y cyfarfod. Os oes gennych unrhyw gwestiwn am hyn, cysylltwch â cabinet_committee@bridgend.gov.uk neu ffoniwch 01656 643147 / 643148.

Yn ddiffuant

K Watson

Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio

Dosbarthiad:

Cynghorwyr

S Aspey
MC Clarke
PA Davies
SK Dendy
J Gebbie
M Jones

Cynghorwyr

MJ Kearn
JE Lewis
AA Pucella
G Thomas
SR Vidal
KJ Watts

Cynghorwyr

CA Webster
DBF White
PJ White
AJ Williams

Agenda Item 3

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD MERCHER, 21 EBRILL 2021

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 A GYNHALIWYD YN I'W
GYNNAL O BELL TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD MERCHER, 21 EBRILL 2021, AM 09:30

Presennol

Y Cyngologydd CA Green – Cadeirydd

MC Clarke
JE Lewis
DBF White

PA Davies
AA Pucella
PJ White

SK Dendy
G Thomas

MJ Kearn
CA Webster

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie, A Hussain, M Jones a/ac T Thomas

Swyddogion:

Meryl Lawrence
Tracy Watson

Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Craffu
Swyddog Cymorth Craffu

Gwahoddedigion:

Cyngologydd Nicole Burnett
Jackie Davies
Nicola Echanis
Laura Kinsey
Claire Marchant
Elizabeth Walton-James
Terri Warrilow

Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnwr
Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion
Pennaeth Addysg a Chymorth Cynnwr
Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant
Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles
Rheolwr Grŵp - Diogelu a Sicrhau Ansawdd
Rheolwr Ansawdd a Diogelu Oedolion

131. DATGANIADAU O FUDDIANT

Cyhoeddodd y Cyngologydd CA Webster fuddiant personol yn eitem 4 oherwydd bod ei mab wedi cael ei atgyfeirio at wasanaeth trosglwyddo'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddar.

Cyhoeddodd y Cyngologydd SK Dendy fuddiant personol yn eitem 4 oherwydd iddi arwain un o'r grwpiau gwirfoddol yn ystod y cyfnod clo cyntaf ac roedd bellach yn cael ei chyflogi trwy Daliadau Uniongyrchol i rywun a atgyfeiriwyd trwy'r gwasanaethau cymdeithasol.

132. CYMERADWYAETH COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Testun 2 a gynhalwyd ar 14 Rhagfyr 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

133. DIOGELU PLANT AC OEDOLION YN YSTOD COVID-19

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yr adroddiad ac esboniodd y byddai'r cyflwyniad yn ymdrech grŵp i alluogi'r Pwyllgor i glywed gan y rhai sydd wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu diogelwch, yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Rhoddodd y Rheolwr Grŵp IAA a Diogelu, drosolwg o'r trefniadau diogelu ar gyfer oedolion a phlant yn ystod pandemig Covid-19. Cyngorodd y Pennaeth Addysg a

Chefnogaeth i Deuluoedd yr Aelodau am y gefnogaeth sydd ar gael i ddysgwyr agored i niwed mewn partneriaeth â chydweithwyr mewn gwasanaethau Diogelu. Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro am gyfarfodydd y Gynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) a chyfarfodydd eraill, ynghyd â chefnogaeth a chyfathrebu i ddioddefwyr a sut y byddai'r gwasanaeth yn edrych o 1 Mai.

Soniodd y Dirprwy Bennaeth Diogelu Dros Dro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) am atgyfeiriadau a'r gweithgareddau a wneir i lliniaru unrhyw risgiau mewn perthynas â'r gostyngiadau hynny mewn atgyfeiriadau yn ogystal â chynllunio adferiad, a'r Diogelu.

Rhoddodd y Rheolwr Ystadau Diogel drosolwg ar Ddiogelu Oedolion, Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS), yr Ystad Ddiogel - Carchar Parc a Chartrefi Preswyl a Nyrso. Diolchodd y Rheolwr Grŵp IAA a Diogelu i gydweithwyr a phartneriaid am eu hargaeledd, eu hyblygrwydd a'u cefnogaeth dros y deuddeg mis diwethaf a oedd yn y pen draw wedi helpu i gadw plant ac oedolion yn ddiogel.

Yn dilyn cyflwyno'r adroddiad, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y canlynol:

Roedd Aelod yn gwerthfawrogi'r cynnydd da parhaus sy'n cael ei wneud gyda MASH a rheoli darpariaeth trwy'r cyfnod anodd hwn. Fe wnaethant gyfeirio at bwynt 4.7 DoLS a'r Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel yn cynghori bod ôl-groniad yr asesiadau wedi lleihau o 152 i 122, a gofyn sut roedd yr ôl-groniad yn cael ei glirio.

Dyweddodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion, yn amlwg ym maes Diogelu Oedolion, bod DoLS wedi bod yn un o'r blaenoriaethau, ond hefyd yn un o'r heriau o ran y gallu i gyflawni'r swyddogaeth honno. Roedd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel wedi egluro beth oedd yn cael ei wneud a bod hyn yn rhywbeth i barhau i'w fonitro. Roedd atgyfeiriadau DoLS yn amrywio, felly pan oedd atgyfeiriadau newydd wrth i gartrefi gofal a chartrefi nyrso ail-agor eto, gellir gweld cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Roedd y sefyllfa'n cael ei hadolygu'n gyson wrth edrych ar ffyrdd o gynyddu nifer y bobl oedd â'r sylfaen sgiliau gywir i gyflawni'r asesiadau hyn. Y gobaith oedd y byddai'r ôl-groniad yn cael ei glirio yn gynnar yn y flwyddyn ariannol, ond oherwydd ansicrwydd y sefyllfa, ni ellid rhoi dyddiad pendant ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel fod nifer o aseswyr annibynnol â chymwysterau addas yn ymuno a fyddai'n cynorthwyo yn y broses honno.

Diolchodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnari i Swyddogion am eu cyflwyniad a nododd ei bod yn falch o'r ffaith fod diogelu yn cael lle mor flaenllaw ym mhopheth a oedd yn cael ei wneud. O ran DoLS a chartrefi nyrso, roedd yn dda gweld brechiadau'n digwydd, ond ni allai bwysleisio digon pa mor anodd oedd y sefyllfa mewn cartrefi nyrso a sut roedd yn anhygoel o bwysig nad oedd cyfraddau heintiau yn cynyddu eto. Roedd cadw pobl yn ddiogel yn flaenoriaeth.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ei bod yn anodd iawn siarad am DoLS a budd gorau heb fyfyrion ar sefyllfa'r cartrefi gofal. Amlygodd fod Pen-y-bont ar Ogwr yn y don gyntaf, ond yn enwedig yn ystod yr ail don, wedi profi achosion sylweddol iawn o Covid-19 yn y sector cartrefi gofal. Roedd staff wedi gweithio gyda chartrefi gofal unigol, partneriaid a staff nyrso ardal, i sicrhau bod unigolion yn cael y gefnogaeth gywir ynghyd â'r Bwrdd Iechyd. Roedd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn rhan o'r cyfarfodydd amlasiantaeth, ochr yn ochr ag lechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) a chydweithwyr o Wasanaethau Rheoleiddio a Rennir (SRS), ac lechyd yr Amgylchedd gan ddod â phrosesau diogelu amlasiantaethol ynghyd â phrosesau rheoli achosion, a oedd yn eithaf arloesol, ond roedd yn golygu cydbwysor risgiau hynny rhwng lechyd y Cyhoedd a Diogelu. Bu trafodaethau yn y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

ynghylch y dysgu a'r profiad o ran cartrefi gofal, a byddai hyn yn parhau i gael ei ymgorffori.

Cyfeiriodd Aelod at drafodaeth radio'r diwrnod cynt ynglŷn â marwolaethau Covid-19 yng Nghymru, a gwnaed sylw nad oedd 25%, mewn gwirionedd yn gysylltiedig â Covid-19, a gofynnodd a ellid darparu'r ffigurau.

Dyweddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles nad oedd y cydweithwyr a oedd yn bresennol yn y sefyllfa orau i ateb y cwestiwn ac y byddai'n sicr yn mynd ag ef i ffwrdd ac yn ceisio ei gyfeirio at y gweithiwr proffesiynol gorau a mwyaf priodol i'w ateb.

Gofynnodd Aelod i'r Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro a oedd hi, yn ystod yr ail gyfnod clo, pan nad oedd eitemau nad oeddent yn hanfodol yn cael eu gwerthu, wedi cael unrhyw broblemau gyda chael dillad oedd eu hangen ar deuluoedd ac os felly, sut roedd hyn wedi'i reoli.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro, pe bai hi wedi profi'r anawsterau hynny, y byddai'n mynd at CalanDVS a oedd â dillad a nwyddau ymolchi y gellid eu defnyddio i ddarparu cefnogaeth. Fel arall, byddai wedi archebu ar-lein a chasglu'r pethau yr oedd eu hangen ar deulu.

Gofynnodd yr Aelod a oedd lle storio yn yr Awdurdod i alluogi pobl i barhau i roi dillad.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro mai dyma oedd yr achos. Pan fyddai'r Tîm Allgymorth yn dod yn un mewnl ar 1 Mai, byddai hyn yn parhau ac ar gael i'r teuluoedd hynny oedd eu hangen. Dywedodd fod ffonau symudol hefyd wedi'u prynu ar gyfer teuluoedd oedd angen dyfeisiau diogelwch. Ar gyfer teuluoedd a oedd yn dod i mewn i'r Awdurdod a oedd â phlant, byddai'r rhain yn cael eu cyfeirio neu eu cysylltu â gwasanaethau plant a oedd â chyflenwadau hefyd a allai helpu'r teuluoedd hynny pe bai angen dillad, bwyd ac ati arnynt.

Cyfeiriodd yr Aelod at yr adroddiad yn sôn am ymarfer corff i garcharorion bellach yn agor ac yn meddwl tybed pa mor agored oedd hynny, os oeddent yn gwneud mwy o ymarfer corff a hefyd pa gyfleoedd gwaith ac addysgol a oedd.

Esboniodd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel fod Carchar Parc ar agor y tu mewn i'r carchar, ond roedd cyfngiad ar ymwelwyr o hyd. O fewn y carchar roedd gweithgareddau wedi ailddechrau gan gynnwys garddio, addysg ac ymarfer corff. Roedd rhai cyfngiadau o hyd o ran gweithgareddau mewnl, ond yn sicr roedd gweithgareddau allanol yn ailddechrau eto.

Cyfeiriodd yr Aelod at DNACPRs mewn lleoliadau cartrefi gofal ar gyfer preswylwyr ag anableddau dysgu a phreswylwyr hŷn a gofynnodd faint o'r rhain a weithredwyd heb yn wybod i'r unigolyn yn ystod y don gyntaf a'r ail don.

Esboniodd y Dirprwy Bennaeth Dros Dro Diogelu - BIP CTM nad oedd ganddi'r ateb am hynny, ond cymerodd y byddai meddygon teulu yn rhan o'r trafodaethau hynny. Byddai'n mynd â hyn yn ôl at y Bwrdd Iechyd gan mai ei dealltwriaeth hi, mewn pandemig neu beidio, oedd y byddai teuluoedd wedi cael gwybod, hyd yn oed pe bai hynny dros y ffôn.

Dyweddodd yr Aelod mai dyma fyddai ei dealltwriaeth hi hefyd ac yn ôl y Cyngor Meddygol Cyffredinol (CMC) dyna oedd y broses a fyddai'n digwydd ond bu tystiolaeth, a drafodwyd yn y cyfryngau bod y rhain yn cael eu rhoi ymlaen heb ymgynghori â theuluoedd nac unigolion. Nid yn unig preswylwyr oedrannus ond pobl ag anabledd dysgu hefyd. Roedd hynny wedi dod o MENCAP. Roedd y Comisiwn Ansawdd Gofal yn

Lloegr wedi nodi ac ymchwilio, ond nid oedd dim wedi digwydd gyda'r hyn sy'n cyfateb yng Nghymru. Roedd yn bwysig gwybod faint o drigolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr a gafodd eu heffeithio, a oedd y DNACPRs wedi'u dileu a bod gwersi wedi'u dysgu.

Gofynnodd Aelod faint o breswylwyr cartrefi gofal a ryddhawyd o'r ysbyty yn y don gyntaf heb gael eu profi.

Dyweddodd y Dirprwy Pennaeth Dros Dro Diogelu - BIP CTM nad oedd ganddi'r data ond ei bod yn ymwybodol o rai achosion lle'r oedd hyn wedi digwydd, yn y don gyntaf, ond roedd pethau'n llawer tynnach yn dilyn yr achosion hynny. Byddai'n gofyn i Ofal a Diogelwch Cleifion a'r Cyfarwyddwr Nrysio ac roedd yn eithaf sicr y gallent roi'r ateb diweddaraf gyda'r gwaith roeddent wedi'i wneud.

Esboniodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion nad oedd y ffigurau ganddi, ond rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor o'r hyn oedd yn cael ei wneud o ran rhyddhau o'r ysbyty, gan egluro bod yr Awdurdod Lleol yn rhan o system gyfarwyddo aur, arian ac efydd y Bwrdd Iechyd. Roedd canllawiau rhyddhau o'r ysbyty gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn glir iawn, gyda sawl fersiwn dros y deuddeg mis diwethaf. Gyda phob fersiwn newydd, gweithiwyd ar brotocol rhyddhau ar y cyd o'r ysbytai, yn seiliedig ar y canllawiau hynny. O ran niferoedd, byddai cydweithwyr o'r Bwrdd Iechyd yn dod o hyd i'r niferoedd hynny, ond roedd y protocol rhyddhau yn cael ei reoli gyda'i gilydd ac roedd yr un peth ar gyfer yr holl safleoedd o fewn y Bwrdd Iechyd.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, mewn perthynas â safle'r cartrefi gofal, yn dilyn y don gyntaf ledled Cymru, bod darn o waith wedi'i gomisiynu gan LIC gan yr Athro John Bolton i edrych ar wersi y gellid eu dysgu'n gyflym iawn. Dyma adolygiad cyflym a gynhalwyd yn ardal pob Bwrdd Iechyd. Ymgymherwyd â hyn yn CTM ac yna yn sgil hynny, roedd cynllun gweithredu, a oedd yn edrych ar wersi yn benodol iawn i CTM, sy'n parhau i gael ei ddatblygu o ran gwersi cyflym iawn ynghylch sut i gynorthwyo pobl i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn ddiogel. Cydnabu'r adolygiad cyflym yr angen i ddysgu gwersi yn gyflym iawn a'u rhoi ar waith erbyn iddynt symud i don nesaf y pandemig. Byddai hi'n hapus iawn i rannu'r cynllun gweithredu hwnnw gyda'r pwyllgor pe bai hynny'n ddefnyddiol.

Gofynnodd yr Aelod pa mor drylwyr a phriodol oedd y monitro wedi bod mewn perthynas â phlant sydd eisoes mewn perygl o ran nodi angen possibl, achosion newydd possibl neu uwchgyfeirio ar sail angen. Sut mae'r Awdurdod Lleol yn asesu risg a oes angen ymweliad rhithwir neu ymweliad wyneb yn wyneb ar blentyn neu deulu a sut mae achosion neu achosion newydd possibl a allai fod yn gollwng trwy'r rhwyd, wedi cael eu hasesu o ran risg. Yn olaf, gofynnodd yr Aelod sut roedd yr Awdurdod Lleol yn delio â sefyllfaoedd lle gallai teuluoedd osgoi, naill ai'n fwriadol neu am resymau eraill, gael eu nodi fel rhai sydd angen ymyrraeth, efallai trwy ofn, neu efallai bod pobl o'r farn y byddai eu plant yn cael eu cludo i ffwrdd pe byddent yn adrodd fod angen arnynt.

Sicrhaoedd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant y pwyllgor fod Tîm yr Hwb Diogelu Amlasantae (MASH) a'r Tîm Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth i Blant wedi parhau i weithredu yn ystod y pandemig. Derbyniwyd atgyfeiriadau o hyd ac roedd sgrinio wedi digwydd o fewn 24 awr, yn ôl yr angen, er mwyn parhau i gynnal y perfformiad hwnnw drwyddo draw. Roedd sgrinio ar y cyd â chydweithwyr yn Cymorth Cynnar a chyda phartneriaid eraill, wedi parhau ac ymatebion i bryderon diogelu yn unol â'r gweithdrefnau. Roedd trafodaethau a chyfarfodydd strategaeth yn parhau a chynhalwyd ymholaidd ar y cyd â phartneriaid hefyd, er bod tîm llai wedi'i leoli'n gorfforol yn yr eiddo arferol. Parhawyd i ymweld â theuluoedd lle'r oedd pryderon diogelu.

O ran plant a oedd eisoes ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, gostyngwyd amlder ymweliadau wyneb yn wyneb, gydag ymweliadau rhyngddynt yn cael eu gwneud o bell

yn unol â chanllawiau LIC ar y cam hwnnw o'r pandemig. Roedd ymweliadau wyneb yn wyneb wedi cynyddu'n raddol, gan adolygu protocolau gweithredu yn unol â newidiadau i gyfyngiadau a chanllawiau LIC. Roedd mwyafrif y plant ar y gofrestr bellach yn cael eu gweld gan weithwyr cymdeithasol gartref. Os na fyddai plentyn yn cael ymweliad gartref, cynhaliwyd asesiad risg i egluro pam na ddylid ymweld â'r plentyn hwnnw gartref gydag Uwch Reolwr yn goruchwyllo hynny, ond anaml y byddai hynny'n digwydd. Roedd rhai ymweliadau o bell yn dal i gael eu cynnal gyda phlant agored ar sail gofal a chymorth a rhai plant y gofelir amdanyst, ond roedd ymweliadau cartref ar gynnydd.

Gan gyfeirio at bobl mewn gwasanaethau fel y Gwasanaeth Troseddu Ieuenciad, pobl sy'n danfon prydau bwyd, ymwelwyr iechyd ac ati, trefnwyd ymyriadau i sicrhau bod pobl yn gweld plant wyneb yn wyneb mor rheolaidd â phosibl yng nghyd-destun y cyfyngiadau.

Sicrhaodd Aelod y Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr Aelodau ac amlwgwyd enghraifft ymateb yr Awdurdod Lleol i brydau ysgol am ddim. Roedd yr agwedd ddiogelu wedi bod yn hanfodol iawn, gan nodi mai ffigurau esgeulustod oedd y math mwyaf cyffredin o gam-drin ac felly nid oedd yr Awdurdod am gymryd y risg o weld unrhyw blentyn yn brin o fwyd trwy esgeulustod. Ystyriwyd diogelu plant bregus ar draws yr holl Gyfarwyddiaethau ac fel awdurdod bu beirniadaeth am wneud penderfyniadau a oedd yn y pen draw yn rhoi lle amlwg i fuddiannau diogelu plant sy'n agored i niwed, fel blaenoriaeth.

Roedd y Dirprwy Bennaeth Diogelu Dros Dro - BIP CTM yn deall pryderon yr Aelod ynghylch rhith-asesiadau. Roedd addysg wedi cynyddu ar gyfer gweithwyr sy'n cynnal asesiadau iechyd rhithwir gan gynnwys sicrhau eu bod yn gallu gweld y plentyn yn ystod yr asesiad rhithwir hwnnw; eu bod yn fwy gwyliadwrus wrth godi ciwiau o amgylch ymddygiad pobl a'r hyn y gallent ei weld yn y cefndir. Fe wnaethant chwilio am gyfleoedd ar gyfer pethau fel yr ymholid arferol, yn enwedig o ran traist domestig a buont yn chwilio am gyfleoedd i ddod o hyd i ffyrdd diogel o wneud hynny naill ai dros y ffôn neu'n rhithwir. Roedd Gwasanaethau lechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wedi dod â phlant wyneb yn wyneb, os oeddent wedi bod yn pryderu neu wedi codi unrhyw giwiau, er mwyn eu gweld ar eu pennau eu hunain. Cytunodd na fyddai unrhyw beth yn disodli cysylltiad wyneb yn wyneb, a dyna oedd y flaenoriaeth, ond roedd pobl wedi bod yn arloesol wrth geisio nodi pryderon mewn ffyrdd eraill.

Ailadroddodd y Rheolwr Grŵp IAA a Diogelu ei sylwadau blaenorol ynghylch y Grwpiau Efydd a'r partneriaid sy'n mynchu yno, gan gynnwys Addysg a Phrawf, felly pe bai anawsterau neu rwystrau, gellid cyflwyno atgyfeiriadau i wasanaethau IAA. Yn ogystal, pe bai angen uwchgyfeirio pryderon diogelu, yna byddai Efydd wedi ystyried hynny ac wedi mynd i'r afael â'r materion i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd.

Diolchodd yr Aelod i'r Swyddogion am eu hymatebion a gofynnodd am ymateb mewn perthynas â'i bwynt olaf ynghylch rhieni a fyddai'n ofni cyrchu'r gwasanaeth neu'n fwriadol ddim eisiau cyrchu'r gwasanaeth.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro fod dioddefwyr a oedd yn ofni Gwasanaethau Plant, oherwydd achosion blaenorol, sylwadau gan rai aelodau o'r cyhoedd a'u profiadau eu hunain, a oedd yn cael eu gorliwio. Sicrhawyd dioddefwyr fod Gwasanaethau Plant yno i'w cefnogi, nid mynd â phlant i ffwrdd. Cydnabu, er nad oedd yn dda cael dioddefwyr mynch, dangosodd data fod yna rai, a amlygodd y byddai dioddefwyr yn dod yn ôl am gefnogaeth, ni waeth a oedd ganddynt blant ai peidio, pe byddai angen cefnogaeth arnynt.

Cadarnhaodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant, o ran hunan-atgyfeiriadau, nad oedd yr atgyfeiriadau hynny gan aelodau'r cyhoedd wedi gostwng o gymharu â

blynnyddoedd blaenorol, ond mewn gwirionedd bu cynnydd bach bob chwarter. Roedd hyn yn cynnig rhywfaint o sicrwydd bod rhieni'n dal i gysylltu â'r Awdurdod Lleol i gael cyngor, help a chefnogaeth os oeddent yn profi problemau gyda'u plant.

Rhoddodd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnwr sicrwydd i'r Aelodau ynghylch riportio pryderon, gan gynggori bod niferoedd diogelu MASH, Plant ac Oedolion ar wefan CBSPAO, a'i bod yn hapus i atgyfeirio ar ran yr Aelodau.

Esboniodd y Pennaeth Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd fod holl ethos y gwasanaethau cymorth cynnar yn ymwneud â cheisio dileu stigma o'r cais am gymorth, gan gydnabod bod angen rhywfaint o gymorth allanol ychwanegol ar lawer o deuluoedd. Atgoffodd yr Aelodau o'i sylw cynharach ynghylch nodi'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed a ddylai gael gafael ar Gymorth Hwb ac y dylid eu gweld. Pan nad oeddent yn dod i mewn neu ddim yn cyrchu'r gefnogaeth honno, yn gyflym iawn roedd Addysg a Chefnogaeth i Deuluoedd yn cysylltu â chydweithwyr diogelu, ynghylch pa lefel o bryder oedd yna, oherwydd byddai yna bob amser rai rhieni na fyddent yn cyrchu'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Roedd hwn wedi bod yn ddull cydgysylltiedig, yr holl ffordd trwy'r pandemig, wrth nodi'r rhai mwyaf agored i niwed ac yna dilyn hynny i fyny ar unwaith os na fyddent yn mynd ar drywydd y gefnogaeth a gynigiwyd iddynt.

Diolchodd yr Aelod i bawb am atebion trylwyr iawn. Tynnodd sylw at waith gwirfoddolwyr a phwyntiau dysgu ac er nad oedd eisiau swnio'n feirniadol, roedd yn teimlo bod fferyllwyr cymunedol wedi bod ychydig yn araf yn ymateb i'r pandemig a'i fod yn teimlo, o ran y system, bod angen meddwl am sut roedd meddyginaeth yn cyrraedd pobl, yn enwedig y rhai a allai gael anhawster cyrraedd fferyllfa.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i'r Aelod am ei sylwadau ac aeth â'r Aelodau yn ôl i ddechrau'r pandemig pan oedd llawer o unigolion yn cael llythyrau i gysgodi am y tro cyntaf, a'r her enfawr i ymateb i gefnogi'r unigolion hynny i gael yr holl gefnogaeth hanfodol yr oedd ei hangen arnynt. Gan adlewyrchu ar ffigurau yr oedd wedi edrych arnynt mewn perthynas â gwaith a wnaed gydag asiantaethau gwirfoddol, cefnogwyd 4444 o bobl, y cyflwynwyd 2993 o bresgripsiynau ohonynt, yn ychwanegol at yr holl wiriadau a wnaed ac a gefnogwyd ynghylch siopa, diogelwch bwyd, cyfeillio, cysgodi a chadw mewn cysylltiad. Gan godi'r pwynt ynghylch fferylliaeth gymunedol, roedd hyn yn rhywbeth i'w gymryd yn ôl a'i drafod gyda'r Grŵp Ardal Integredig, yn y Bwrdd Iechyd. Yn yr un modd â rhannau eraill o ofal sylfaenol, roedd fferylliaeth gymunedol yn gweithredu eu set o drefniadau parhad busnes eu hunain, felly roeddent yn addasu sut i ymateb. Roedd hi'n meddwl bod yr ymateb hwnnw wedi bod yn hynod gadarnhaol ar y cyfan ond roedd cyfile i fyfyrto a symud ymlaen ac edrych ar y rôl yr oedd angen i bawb ei chwarae yn y ffordd gydgysylltiedig honno.

Dyweddodd Aelod fod y cyfarfod wedi bod yn ddiddorol iawn a chafwyd atebion da iawn a oedd yn galonogol iawn. Roedd ganddi nifer o gwestiynau. O ran asesiadau risg, (nid DoLS) oedd y rhain yn gyfredol ac a oedd unrhyw restr aros. O ran ffonau symudol a roddwyd i ddioddefwyr, a fu unrhyw ddigwyddiadau lle cafodd y ffonau hynny eu cymryd i ffwrdd neu eu malu, felly nid oedd y dioddefwr yn gallu eu defnyddio. Pa ystyriaeth oedd i bobl nad oedd ganddynt gyfrifiaduron, sut roedd gwybodaeth yn eu cyrraedd a sut yr ymdriniwyd â hwy. Yn ôl pa ganran yr oedd derbyniadau i adrannau damweiniau ac achosion brys wedi cynyddu.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro fod y gwasanaeth Cynghorwyr Trais yn y Cartref Annibynnol (IDVA) ychydig yn wahanol o ran atgyfeiriadau. Roedd yr atgyfeiriadau eisoes wedi'u nodi mewn risg, felly roedd popeth a dderbyniwyd o fewn gwasanaeth IDVA eisoes yn risg uchel, felly nid oedd angen cynnal unrhyw asesiadau,

ond byddai atgyfeiriad canolig yn mynd at Calan DVS a fyddai'n cynnal yr asesiad risg hwnnw ac yn penderfynu a oeddent yn risg uchel ac yna byddent yn eu cyfeirio i'r Uned Cam-drin Domestig. Cadarnhaodd nad oedd rhestr aros. Cyflogwyd IDVA ychwanegol oherwydd y cynnydd bach mewn achosion yn ystod y pandemig. Codwyd a chysylltwyd â'r holl achosion a ddaeth i mewn o fewn y dydd e.e. derbyn atgyfeiriad erbyn 10am, cysylltu â nhw erbyn 4pm. Os nad oedd modd cysylltu â nhw, byddent yn parhau i geisio nes cysylltu â nhw a byddent yn cael eu trafod y diwrnod canlynol, yn y drafodaeth ddyddiol. Os na chysylltwyd o fewn 48 awr yna byddai swyddogion heddlu cymunedol yn curo'r drws ac yn gwneud gwiriad lles.

O ran ffonau symudol, roedd hyn wedi bod yn anodd iawn yn ystod y pandemig ac roedd rhai wedi'u cymryd oddi ar ddioddefwyr a'u dinistrio. Archwiliwyd opsiynau eraill, er enghraifft, yr Heddlu yn gosod larymau TecSOS, yn debyg i larwm panig a fyddai'n rhybuddio'r Heddlu, neu os oedd modd, dim ond deialu 999 ar y ffôn symudol. Yn ogystal, rhoddir ystyriaeth i bryd y gall cyflawnwr fynd i apwyntiad, er mwyn cysylltu â'r dioddefwr yn ystod y cyfnodau hynny, ond heb roi'r dioddefwr neu'r teulu mewn mwy o berygl. Roedd yn her, hyd yn oed heb Covid-19, daethpwyd o hyd i ffonau a'u torri ond yn ystod yr amser hwn roedd wedi bod yn eithaf heriol.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles sylw'r Aelodau at yr ystadegau perfformiad a oedd yn yr adroddiad ym mhwynt 4.3 am y cyfnod hyd at ddiweddu mis Rhagfyr 2020. Roedd ystadegau hyd at ddiweddu y flwyddyn a oedd yn dangos, i raddau helaeth iawn, fod amserlenni statudol yn cael eu cyflawni. Nid oedd rhestr aros ar gyfer diogelu, roedd yn ymateb yn digwydd ar unwaith. Roedd perfformiad a llinellau amser gwell eleni o gymharu â pherfformiad y llynedd, a oedd yn gynnydd enfawr, o ystyried yr heriau a wynebwyd yn ystod y flwyddyn.

Esboniodd y Dirprwy Pennaeth Dros Dro Diogelu - BIP CTM, mewn ymateb i'r cwestiwn ar ofal sylfaenol ac adrannau damweiniau ac achosion brys, fod ganddi ystadegau ar gyfer plant, gan nodi ym mis Rhagfyr, Ionawr a Chwefror, pan oedd ton 2 yn ei anterth, bod tua 468, 417 ac yna 350 wedi mynychu'r adran damweiniau ac achosion brys. Roedd y rheini wedi cynyddu i 730 ar gyfer mis Mawrth. Yr hyn a welwyd oedd gostyngiad o 60% ym mhresenoldeb mewn adrannau damweiniau ac achosion brys, roedd hynny ar draws pob un o dair ardal yr ALI, ond cynyddodd hynny'n raddol wedyn wrth i bobl deimlo ychydig yn fwy diogel. Dywedodd y byddai'n ceisio cael yr ystadegau diweddaraf ar gyfer Aelodau.

Cadarnhaodd y Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro, mewn perthynas â mynediad at gyfrifiadur, fod cyllid ar gael i gyflenwi unrhyw ddefnyddwyr gwasanaeth nad oedd ganddynt dabled neu gyfrifiadur, os oedd yn ddiogel iddynt wneud hynny. I'r rhai nad oeddent yn hyddysg mewn cyfrifiaduron, byddai sgyrsiau ffôn, gyda'r defnyddiwr gwasanaeth hwnnw, yn lle.

Pwysleisiodd y Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant na fyddai'r ffaith nad oedd ganddynt offer yn golygu bod teuluoedd ddim yn cael eu gweld. Yn y mwyafrif o achosion, roedd gan y teuluoedd ffonau, yn hytrach na thabledi neu gyfrifiaduron, felly byddai'r rhan fwyaf o gyswilt wedi'i wneud, hyd yn oed galwadau fideo, dros y ffôn. Yn ogystal, gwnaed trefniadau i ymarferwyr allu defnyddio WhatsApp hefyd. Pe bai teulu heb offer, byddai ymweliad wyneb yn wyneb yn cael ei gynnal.

Dyweddodd Aelod fod Craffu yn aml yn gofyn am brofiadau personol pobl ac roedd yr Aelod yn teimlo y byddai'n ddefnyddiol rhannu rhai o'r pethau yr oedd hi wedi dod ar eu traws yn ystod y cyfnod clo cyntaf fel gofalwr, gan gydnabod bod pethau wedi gwella'n amlwg dros amser.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles i'r Aelod am rannu ei phrofiadau; roedd yn ymwneud â dysgu a datblygu, nid edrych yn unig ar ddata ac ystadegau, ond clywed yr hyn oedd yn digwydd mewn gwirionedd ar lawr gwlad. Byddai'n croesawu sgwrs bellach y tu allan i'r pwylgor Craffu.

Cyfeiriodd Aelod at y newid gwasanaeth cam-drin domestig ac nad oedd botwm dianc ar dudalen we cam-drin domestig CBSPAO a gofynnodd a oedd cynllun i gael un.

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth VAWDASV Dros Dro y byddai'n mynd â'r pwynt hwn yn ôl at Cyfathrebu ac at ei Rheolwr i edrych ar ychwanegu'r swyddogaeth hon.

Dywedodd Aelod a gyfeiriodd at y pwynt ynghylch y carchardai, ei bod yn ymwybodol, trwy ffrindiau a oedd yn gweithio yn y system garchardai y gallai rhai staff fod wedi gweithio gyda Covid-19, er iddi nodi nad oedd hyn yng Ngharchar y Parc. Gofynnodd hefyd pa gymorth a chwnsela iechyd meddwl oedd ar gael i staff a charcharorion.

Dywedodd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel fod cyfarfodydd diogelu misol yng Ngharchar y Parc. Ar gyfer Carchar y Parc, roeddent wedi cael cyswllt trwy'r pandemig trwy gysylltiadau fideo a'u systemau diogel ac nid oedd hi'n ymwybodol o unrhyw staff carchar a oedd wedi gweithio gyda Covid-19, ac roedd hynny'n cael ei reoli gan y carchar. Edrychwyd ar wasanaethau cwnsela i garcharorion, gan nodi'r cynnydd mewn materion iechyd meddwl, yn enwedig yn yr ail gyfnod clo. Bu 3 marwolaeth yn y carchar yn y pandemig. Roedd cydweithwyr iechyd yn y Carchar wedi gweithio'n galed iawn ac wedi cymryd rhagofalon ar unwaith, yn unol ag lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Canllawiau Carchardai a gwnaeth y trefniadau clo yn y Carchar leihau faint o ledaenu a chroes-heintio a ddigwyddodd yn y carchar. Roedd gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu harchwilio gyda CTM i weld a ellid cynnig mwy o wasanaethau cwnsela yn y carchar i staff a charcharorion.

Atgyfnerthodd y Rheolwr Grŵp IAA a Diogelu LW-J yr hyn a ddywedodd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel. Sefydlwyd mechanweithiau fel y gallai hi ei hun a'r Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel gwrdd â rheolwyr rhan y boblogaeth gyffredinol yng Ngharchar y Parc a'r Sefydliad Troseddu Ieuenciad (YOI). Trafodwyd yr effaith ar staff, ond nid oedd y naill reolwr na'r llall wedi codi unrhyw bryderon diogelu sylweddol yn y cyfarfod ac roedd cyfarfodydd diogelu rheolaidd yn parhau. Roedd gweithgaredd diogelu wedi parhau gyda'r sianeli hynny wedi'u cadw ar agar er mwyn i'r ddwy ran o'r carchar allu cyfathrebu'n effeithiol â mi fy hun a'r Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel y tu allan i'r cyfarfodydd safonol.

Gofynnodd Aelod a oedd y 3 pherson wedi marw o ganlyniad i Covid-19 ac o ran lles meddyliol a'r pwysigrwydd a roddodd G4S a'r gwasanaeth prawf carchar ar deulu fel rhan o'r adferiad, a oedd system ar waith yn y carchar fel sydd mewn lleoedd y tu allan, lle gallai plant cyswllt digidol â'u rhieni.

Esboniodd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel fod nifer o ddyfeisiau wedi'u prynu ar ddechrau Covid-19 trwy Amazon, fel y gallai carcharorion a'r rhai yn yr Adain Cyflawnder Ieuenciad gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd. Roedd galwadau rheolaidd i deuluoedd, felly er na ellid ymweld yn y carchar, gwnaed ymdrech fawr i sicrhau bod y cysylltiadau teuluol hynny yn cael eu cynnal. Cadarnhaodd y Rheolwr Diogelu ac Ystadau Diogel fod y 3 marwolaeth yn gysylltiedig â Covid-19.

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl wahodiadau a oedd wedi ymuno â'r cyfarfod am eu presenoldeb a'u holl ymatebion llawn a oedd wedi'u gwerthfawrogi'n fawr.

Gadawodd y Gwahoddedigion y cyfarfod.

Argymhellion:

Ar ôl ystyried yr adroddiad ar Ddiogelu Plant ac Oedolion yn ystod Covid-19 ac ymatebion Gwahoddedigion i gwestiynau Aelodau, gwnaeth y Pwyllgor y sylwadau a'r argymhellion a ganlyn:

Roedd y Pwyllgor eisiau cydnabod yn ffurfiol yr heriau a'r ymdrechion enfawr a wnaed gan staff a'r partneriaethau i barhau i ddiogelu a diolchwyd i bawb am eu gwaith caled trwy gydol y cyfnod anodd hwn.

Gofynnodd y Pwyllgor am y canlynol:

1. Y dylid darparu data Diogelu Chwarter 4 ar draws y gwasanaethau i'w gylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor.
2. Rheolwr y Grŵp IAA a Diogelu i ddarparu copi o'r ddogfen a luniwyd gan Fwrdd Diogelu Cwm Taf.
3. Y dylid cyfeirio cwestiwn at lechyd Cyhoeddus Cymru neu'r Bwrdd lechyd o ran y ffordd y cofnodwyd marwolaethau, ar ôl cael gwybod nad oedd 25% o farwolaethau Covid-19 yn gysylltiedig â Covid-19 o gwbl.
4. Bod y gwasanaeth VAWDASV newydd yn cael ei ychwanegu at y Blaenraglen Gwaith ar gyfer craffu arno.
5. Bod ystadegau'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â faint o DNACPRs a roddwyd ar breswylwyr mewn cartrefi gofal heb i'r teulu gael eu gwneud yn ymwybodol yn y don gyntaf a'r ail, p'un a oeddent wedi cael eu dileu ers hynny a'r gwersi a ddysgwyd.
6. Bod ystadegau'n cael eu cyflenwi ynghylch faint o breswylwyr cartrefi gofal a ryddhawyd o'r ysbyty yn y don gyntaf heb gael eu profi.
7. Bod copi o'r cynllun gweithredu, a ddaeth allan o'r darn a gomisiynwyd gan LIC ar wersi a ddysgwyd, o'r enw adolygiad cyflym, yn cael ei gylchredeg i'r Aelodau.
8. Bod trafodaethau'n digwydd gyda'r grwpiau ardal integredig mewn perthynas â rôl fferyllwyr cymunedol, yn enwedig yn ystod y pandemig, o ran sut mae meddyginaeth yn cyrraedd pobl.
9. Bod ystadegau'n cael eu cyflenwi mewn perthynas â'r niferoedd cynyddol o bobl sy'n mynd yn uniongyrchol i'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, ar gyfer Oedolion a Phlant.
10. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fotwm dianc ar dudalen we cam-drin domestig y Cyngor.
11. Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i wasanaeth cwnsela yng Ngharchar y Parc ar gyfer Staff a Charcharorion o ganlyniad i farwolaethau yn y carchar.

PWYLLGOR CRAFFU TESTUN 2 - DYDD MERCHER, 21 EBRILL 2021

134. **MATERION BRYS**

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 12:30

Agenda Item 4

BRIDGEND COUNTY BOROUGH COUNCIL

REPORT TO SUBJECT OVERVIEW AND SCRUTINY COMMITTEE 2

15 JULY 2021

REPORT OF THE CORPORATE DIRECTOR SOCIAL SERVICES AND WELLBEING

THE STRATEGIC PROGRAMME FOR PEOPLE IN BRIDGEND – IMPROVING OUTCOMES FOR THE JONESES

1. Purpose of report

1.1 The purpose of this report is to:

- Provide the Committee with an overview of the strategic programme to improve outcomes for people in Bridgend;
- Seek scrutiny, comment and challenge on the priorities set out within this report and supporting presentation. (**Appendix 1**)

2. Connection to corporate well-being objectives/other corporate priorities

2.1 This report assists in the achievement of the following corporate well-being objectives under the **Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015**:

- **Helping people and communities to be more healthy and resilient** - taking steps to reduce or prevent people from becoming vulnerable or dependent on the Council and its services. Supporting individuals and communities to build resilience, and enable them to develop solutions to have active, healthy and independent lives.
- **Smarter use of resources** – ensure that all resources (financial, physical, ecological, human and technological) are used as effectively and efficiently as possible and support the creation of resources throughout the community that can help to deliver the Council's well-being objectives.

3. Background

Remodelling adult and children's social care

3.1 Bridgend County Borough Council (BCBC) has made significant progress since the implementation of the Social Services and Wellbeing (Wales) Act 2014 in 2016 to remodel its adult and children's social care services to provide more outcome focused, strength based models which are cost effective and prevent escalation of need. Prior to the Covid-19 pandemic, the Remodelling Adult Social Care Programme (RASC) and Remodelling Children's Social Care (RCSC) programmes provided strategic leadership at a programme level to progress developments in: early help and permanence, practice development, transition and remodelling provision for

children and young people; and, prevention and well-being, social care modelling, commissioning for outcomes and service delivery for adults.

3.2 Both the RASC and RCSC programmes provided effective governance to achieve considerable improvements, ensuring that Bridgend has been leading the way in developing preventative and strength based approaches, through effective partnership, practice and remodeling service provision, which together have meant that social care services in Bridgend are both effective and cost effective.

3.3 Key achievements in adult services have included:

- the integration of well-being and prevention for adults, working closely with third sector, leisure and cultural trust partners, to keep people well and connected in their own homes and communities;
- the integration of services with Cwm Taf Morgannwg University Health Board (and prior to that the former Abertawe Bro Morgannwg University Health Board) to provide seamless, integrated community care and support at home for 'Mrs Jones' through a multi-disciplinary Community Resource Team and integrated health and social care teams in community networks;
